

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

27 Medi 2021

SL(6)047 – Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru (Diwygio) 2021

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn cywiro gwall croesgyfeirio yn Rheoliadau 2021 Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 ("Rheoliadau'r Tribiwnlys").

Mae Rheoliadau'r Tribiwnlys yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn mewn achosion gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru sy'n ymwneud ag apelau anghenion dysgu ychwanegol (o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018) a hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd mewn cysylltiad â disgyblion ysgol (o dan Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi rheoliad 17(2) newydd i Rheoliadau'r Tribiwnlys i ddarparu bod cyfnod y datganiad achos ar gyfer hawlydd sy'n gwneud hawliad o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn 8 wythnos, sy'n dechrau ar y dyddiad y derbynnir cydnabyddiaeth o dderbyn hawliad.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar:

Yn dod i rym ar: 08 Hydref 2021

